# THEMA: Ailgylchu a Gwastraff Bwyd

## CEFNDIR

*Nod y sesiwn hon yw archwilio pwysigrwydd ailgylchu, lleihau gwastraff, a sut y gall cymryd camau bychain gyfrannu at warchod yr amgylchedd.*
*Erbyn diwedd y sesiwn, dylai'r plant allu gwneud y canlynol:*

- *Nodi beth y gellir ac na ellir ei ailgylchu gartref ac yn yr ysgol.*
- *Deall pwysigrwydd lleihau gwastraff ac ailddefnyddio eitemau er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.*
- *Didoli deunyddiau y gellir eu hailgylchu'n gywir a deall canllawiau ailgylchu lleol.*
- *Myfyrio ar eu harferion gwastraff eu hunain, gan gynnwys effaith taflu sbwriel, ac awgrymu sut y gellir gwella ymdrechion ailgylchu gartref ac yn y dosbarth.*
- *Cydnabod sut y gall ffyrdd amhriodol o gael gwared â sbwriel, e.e. taflu sbwriel neu dywallt sylweddau niweidiol i lawr y draen, effeithio ar gyrsiau dŵr a bywyd gwyllt lleol.*
- *Egluro sut y mae gwastraff bwyd yn chwarae rhan mewn newid hinsawdd.*
- *Rhoi enghreifftiau o wastraff bwyd anfwytadwy (bwyd na ellir ei fwyta).*
- *Disgrifio sut y defnyddir gwastraff bwyd anfwytadwy i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.*

*Os ydych chi'n teimlo bod gan eich dosbarth ddealltwriaeth dda o ailgylchu, efallai yr hoffech chi ganolbwyntio mwy ar leihau gwastraff bwyd gan ddefnyddio'r Adnodd Ymgyrch Gwastraff Bwyd, gan gynnwys yr adnodd hwn, Sleidiau 28-38, lle gall dysgwyr greu bwydlen i frwydro yn erbyn gwastraff bwyd.*

## *Dolenni ac Adnoddau*

*Mae deunyddiau ar gyfer gwersi ailgylchu, gan gynnwys cynllun gwers, canllawiau i athrawon, ffeithiau a chardiau trafod ailgylchu, cardiau gweithredu ailgylchu, a'r Ymgyrch Gwastraff Bwyd, hefyd i'w gweld yma:*
*https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/Learning-Resources.aspx*

*Mae'r adnodd gwers 'Dim ond Glaw i Lawr y Draen' yn cynnwys gweithgareddau rhyngweithiol priodol i oedran y plant, sydd wedi'u dylunio i ennyn eu diddordeb mewn dysgu am effaith uniongyrchol llygredd ar ein hamgylchedd ac annog arferion cyfrifol, a hynny gartref ac yn eu cymunedau. Yn ogystal â'r deunyddiau ar gyfer gwersi, rydym hefyd yn eich annog i gymryd rhan weithredol yn yr ymgyrch. Gall y plant fynd ati i godi sbwriel yn lleol a helpu codi ymwybyddiaeth am daflu sbwriel yn y gymuned drwy gymryd rhan mewn gweithgaredd chwistrellu paent sialc bioddiraddadwy y gellir ei olchi, sy'n cynnwys chwistrell-baentio negeseuon fel "Peidiwch â Thaflu Sbwriel" a "Mae'r Môr yn Dechrau Yma". I gael deunyddiau gwersi neu i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, anfonwch neges e-bost at: cadwchsiryfflintyndaclus@siryfflint.gov.uk*

*Ewch i ddatgan diddordeb mewn dod yn Ardal Ddi-sbwriel*
*https://keepwalestidy.cymru/caru-cymru/cy/ardaloedd-di-sbwriel/*

*Gwnewch gais am gyllid ar gyfer prosiectau garddio*
*https://keepwalestidy.cymru/cy/ein-gwaith/cadwraeth/natur/*

*Ewch i ddatgan diddordeb mewn ymuno neu ail-gysylltu â'r cynllun Eco-Sgolion*
*https://keepwalestidy.cymru/eco-schools/cy/*